CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED - RHESTR O DDOGFENNAU I'W CADW NEU I'W GWAREDU

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Cofnodion	Amhenodol	Archif	Rhaid Cadw copïau gwreiddiol o'r cofnodion, wedi'u llofnodi, am gyfnod amhenodol mewn man storio diogel. Ar gyfnodau rheolaidd-dim mwy na phum mlynedd ar wahân-dylid eu harchifo a'u hadneuo gyda'r awdurdod uwch.
Agendau	Pum mlynedd	Rheolaeth	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Adroddiadau am ddamweiniau a digwyddiadau	20 mlynedd	Hawliadau Posibl	
Graddfeydd ffioedd a thaliadau	6 mlynedd	Rheolaeth	Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd
Cyfrifon derbyniadau a thaliadau	Amhenodol	Archif	Unwaith y bydd y llyfr yn llawn archif gydag awdurdod uwch.
Llyfrau derbyniadau o bob math	6 mlynedd	Treth ar Werth	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Datganiadau banc, gan gynnwys cyfrifon adneuo/arbedion	6 mlynedd	Archwilio	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Llyfrau talu mewn i'r banc	6 mlynedd	Archwilio	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Bonyn llyfrau sieciau	6 mlynedd	Archwilio	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Dyfynbrisiau a Tendrau	6 mlynedd	Deddf Cyfyngiadau1980 (fel y'i diwygiwyd)	Cedwir rhestr o'r dogfennau hynny a waredwyd er mwyn bodloni gofynion y GDPR.

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Anfonebau wedi'u talu.	6 mlynedd	T.A.W.	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Sieciau wedi'u talu.	6 mlynedd	Deddf Cyfyngiadau1980 (fel y'i diwygiwyd)	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Cofnodion Treth ar Werth	6 mlynedd	T.A.W.	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Llyfr arian parod mân, costau post a llyfrau cofnodi galwadau ffôn.	6 mlynedd	Treth, TAW, Deddf Cyfyngiadau1980 (fel y'i diwygiwyd)	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Taflenni amser.	Blwyddyn archwilio ddiwethaf a gwblhawyd - tair blynedd.	Gofyniad Archwiliad Anaf personol (arfer gorau)	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Llyfrau cyflogau a'r system gyflogau.	12 mlynedd	Pensiwn	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Polisïau Yswyriant.	Tra ei fod yn ddilys (ond gweler y ddau eitem nesaf isod)	Rheolaeth	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Enwau cwmnïau yswiriant a rhifau polisïau.	Amhenodol	Rheolaeth	
Tystysgrifau ar gyfer yswiriant yn erbyn atebolrwydd tuag at weithwyr	40 mlynedd o'r dyddiad y dechreuodd yr yswiriant neu y cafodd ei adnewyddu.	Rheoliadau atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998 (SI2753) Rheoli	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Adroddiadau arolygu offer maes chwarae	21 mlynedd		Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.
Cofrestr lwfansau aelodau	6 mlynedd	Treth, Deddf Cyfyngiadau1980 (fel y'i diwygiwyd)	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân ond cadwch restr o'r rhai a ddinistriwyd er mwyn bodloni gofynion y GDPR (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol).
Gwybodaeth gan gyrff eraill e.e. cylchlythyrau gan ULIC SLCC NALC. Cyngor Sir.	Cadwch cyhyd ag y mae'n ddefnyddiol a pherthnasol.		Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Gwybodaeth Leol/Hanesyddol	Amhenodol - l'w gadw'n ddiogel er budd y plwyf.	Gall y Cyngor dderbyn cofnodion o ddiddordeb lleol.	
Cylchgronau a chyfnodolion	Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno Cadw ei gyhoeddiadau ei hun. O ran eraill, dylid eu Cadw cyhyd ag y maent yn ddefnyddiol ac yn berthnasol.	Mae Deddf Llyfrgelloedd (Adneuo Cyfreithiol) 2003 (y Ddeddf 2003) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor lleol sydd, ar ôl 1 Chwefror 2004, wedi cyhoeddi gweithiau printiedig (mae hyn yn cynnwys pamffled, cylchgrawn neu papur newydd, map, cynllun, siart neu dabl) i gyflwyno, ar ei gost ei hun, copi ohonynt i Fwrdd y Llyfrgell Brydeinig (sy'n rheoli ac yn goruchwylio'r Llyfrgell Brydeinig). Felly, mae gweithiau printiedig, fel y'u diffinnir yn Neddf 2003 ac a gyhoeddir gan gyngor lleol, yn deunyddiau sy'n cael eu cadw gan y Llyfrgell Brydeinig	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân.

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Er mwyn sicrhau bod cofnodion yn hawdd eu cyfeirio atynt, mae angen dilyn y canlynol: • Cedwir rhestr o ffeiliau sydd wedi'u storio mewn cypyrddau • Caiff ffeiliau electronig eu cadw gan ddefnyddio enwau ffeiliau perthnasol	Bydd y ffeiliau electronig yn cael eu copïo wrth gefn mewn rhaglen sy'n seiliedig ar y cwmwl, yn ôl yr angen.	Rheolaeth	Bydd dogfennau nad oes eu hangen mwyach yn cael eu gwaredu; sicrheir bod unrhyw ddogfennau cyfrinachol yn cael eu dinistrio fel gwastraff cyfrinachol. Cedwir rhestr o'r dogfennau a waredir, er mwyn bodloni gofynion y GDPR.
Gohebiaeth Gyffredinol	Oni bai ei fod yn ymwneud â chategorïau penodol a nodir yn y polisi, dylid cadw gohebiaeth – boed ar bapur neu ar ffurf electronig. Dylid cadw cofnodion cyhyd ag y bo eu hangen at ddibenion cyfeirio neu atebolrwydd, er mwyn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, neu i ddiogelu hawliau a buddiannau cyfreithiol a hawliau a buddiannau eraill.	Rheolaeth	Bin - Gwastraff Cyfrinachol - Rhwygo'n fân Cedwir rhestr o'r dogfennau hynny a waredwyd er mwyn bodloni gofynion y GDPR.

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Gohebiaeth yn ymwneud â staff.	Os yw'n ymwneud ag Archwilio, gweler y rhannau perthnasol uchod. Dylid ei gadw'n ddiogel, ac ni ddylid cadw data personol sy'n ymwneud â staff am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y diben y cafodd ei gadw. Mae'n debygol bod terfynau amser ar gyfer hawliadau tribiwnlys rhwng 3 a 6 mis. Argymhellir bod y cyfnod hwn yn dair blynedd.	Ar ôl i berthynas gyflogaeth ddod i ben, efallai y bydd angen i gyngor gadw cofnodion staff – gan gynnwys rhai cyn-aelodau o'r staff – a chael mynediad atynt, er mwyn darparu geirdaon, ymdrin â thalu treth, cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiynau, ac mewn perthynas ag unrhyw hawliadau cyfreithiol cysylltiedig a wneir yn erbyn y cyngor.	Gwastraff cyfrinachol Cedwir rhestr o'r dogfennau sy'n cael eu gwaredu, er mwyn bodloni gofynion y GDPR.

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Dogfennau sy'n ymwneud â materion cyfreithiol, esgeulustod, a chamweddau eraill.	Mae'r rhan fwyaf o achosion cyfreithiol yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cyfyngiadau 1980 (fel y'i diwygiwyd). Mae Deddf 1980 yn nodi na ellir cychwyn hawliadau cyfreithiol ar ôl cyfnod penodol.Pan fo'r cyfnodau cyfyngu yn hirach na chyfnodau eraill a bennir, dylid cadw'r ddogfennaeth am y cyfnod hirach hwnnw. Gall rhai mathau o achosion cyfreithiol berthyn i ddau gategori neu fwy. Os oes amheuaeth, cadwch y ddogfennaeth am y cyfnod cyfyngu hiraf o'r cyfnodau dan sylw.		
Hesgeulusrwydd	Chwech mlynedd		
Enllib	Blwyddyn		
Cytundeb	Chwech mlynedd		
Lesau	Deuddeg mlynedd		
Planning Papers			
Ceisiadau	Blwyddyn	Rheolaeth	
Apeliadau	Un flwyddyn, oni bai bod datblygiad sylweddol	Rheolaeth	

DOGFEN	CYFNOD CADW LLEIAF	RHESWM	MODD GWAREDU
Coed	Blwyddyn	Rheolaeth	
Cynllun Datblygu Lleol	Cadwyd cyhyd ag y mae mewn grym	Cyfeirnod	
Cynlluniau Lleol	Cadwyd cyhyd ag y mae mewn grym	Cyfeirnod	
Cynlluniau tref/cymdogaeth	Amhenodol - cynlluniau terfynol a fabwysiadwyd	Diben hanesyddol	